**CYFARFOD** hybrid **Y CYNGOR,** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 28ain Medi 2022, fel cyfarfod hybrid gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 42. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran y Cynghorwyr Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, P. Prendergast a Mrs M. A. Walker.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines a hefyd y cyn Faer, Mr Derek Davies, a gofynnodd i'r aelodau am gyfnod o dawelwch fel arwydd o barch i'r ddau.

Awgrymodd Clerc y Dref bod eitemau 9 (Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd) a 10 (Cyflwyniad: CSDd – Mr Mike Jones – Datblygiad Promenâd y Rhyl) yn cael eu dwyn ymlaen.

***PENDERFYNWYD*** *dod â'r eitemau ymlaen.*

## 43. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 44. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – MR MIKE JONES – DATBLYGIAD PROMENAD Y RHYL

Croesawodd y Cadeirydd Mr Mike Jones i'r cyfarfod a'i wahodd i annerch yr aelodau.

Dywedodd Mr Jones bod y gwaith datblygu wedi deillio o ddogfen Gweledigaeth Canol Tref y Rhyl, a'r amcanion trosfwaol oedd ail-uno'r traeth a chanol y dref yn bennaf drwy wella symudiad diogel cerddwyr drwy dacluso Rhodfa'r Dwyrain a'r Gorllewin, lledu palmentydd a darparu mwy o gysylltiadau/mynediad rhwng y ddwy ardal.

Byddai'r datblygiad hefyd yn gwella Rhwydwaith Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 sy'n rhedeg ar hyd y Promenad ac sy'n denu 400,000 taith y flwyddyn yn ôl Sustans.

Byddai ardal y datblygiad ar hyd y Promenad o SC2 i'r gylchfan ar dop Bath Street.

Byddai'r gwaith yn cael ei rannu'n gyfnodau a chael ei wneud pan fyddai cyllid yn cael ei sicrhau.

Byddai Cyfnod 1 yn cynnwys gwaith ar y briffordd bresennol, a chan mai Cyngor Sir Ddinbych oedd berchen ar y tir nid oedd angen caffael unrhyw dir na chael caniatâd cynllunio, a fyddai'n symleiddio'r rhan hon o'r datblygiad. Byddai hyn yn cael ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Bro.

Byddai Cyfnod 2 yn cynnwys gwaith rhwng y ffordd a'r môr-fur a byddai'n cael ei ariannu gan grant Adfywio Llywodraeth Cymru.

Roedd y cynigion wedi eu cyflwyuno i Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl (MAG) yn gynharach yn y mis, a byddai'n mynd gerbron Tîm Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych (CET) ac yna'r Cabinet ar 3ydd Hydref. Byddai ymgynghori gyda'r cyhoed yn cychwyn ddiwedd mis Hydref ac yn cynnwys cysylltu gyda'r Aelod Seneddol ac Aelod lleol Senedd Cymru, cyfarfod gyda busnesau a effeithid yn uniongyrchol a BID y Rhyl, siop galw heibio yng nghanol y dref, ymgynghori arlein a gweithdai i randdeiliaid.

Ar ôl amrywiol ymgynghori, materion cyllid a chymeradwyo dyluniad a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (TRO), gobeithid cychwyn ar y gwaith adeiladu ym mis Hydref 2023 a dod i ben ym mis Medi 2024.

Ymgorfforwyd y prosiect yn y Bwrdd Prosiect Amddiffyn y Glannau; roedd yn cysylltu yn rheolaidd gyda Thîm Prosiect Adeiladau'r Frenhines a chyfarfod gydag amryweiol dimau a gwasanaethau CSDd.

I liniaru effaith y gwaith adeiladu, y bwriad oedd cael dim ond un contractwr i gyflenwi'r cynllun priffordd/parth cyhoeddus ynghyd â'r Prosiect Amddiffyn y Glannau. Byddai rôl Swyddog Cyswllt Busnes yn cael ei chyflwyno a byddai diweddariadau wythnosol i randdeiliaid allweddol ar y gwaith fel yr aiff ymlaen.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Mr Jones:

- Os oedd y bid i'r gronfa Ffyniant Bro yn aflwyddiannus, byddent yn mynd yn ôl i'r cynllun gwreiddiol, sef bod y prosiect cyfan yn cael ei ariannu gan grant adfywio Llywodraeth Cymru.

- Os bydd bywyd pum mlynedd BID y Rhyl yn dod i ben y flwyddyn nesaf, yna byddai cysylltu'n uniongyrchol gyda busnesau lleol a'r cyfnod 'siop galw heibio dros dro' yn effeithiol, gobeithio.

- Roedd defnyddio Swyddog Cyswllt Busnes, a gyflogwyd gan y contractwr ond wedi ei ariannu gan CSDd a darparu cylchlythyr wythnosol, wedi gweithio'n da iawn yn Llangollen mewn prosiect fel modd o gyfathrebu a phwynt cyswllt, felly dylai fod o'r un fantais i'r prosiect yma.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones a Mr Hope am eu hamser.

## 45. <u>COFNODION</u>

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 20fed Gorffennaf 2022 | - | Rhifau Cofnod | 26-41 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellors a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Mewn perthynas â chofnod rhif 38 (Arddangosfa Goleuadau 2022), dywedodd Clerc y Dref iddo dderbyn prisiau ar gyfer trwsio'r goleuadau yr oedd modd eu trwsio ac atgoffodd yr aelodau ei fod wedi cael cyllideb o rhwng £7,000 a £10,000.

Byddai trwsio wyth golau yn costio £1,340 a allai o bosib ddod o'r gyllideb arferol, a'u hail-gyflwyno fel rhan o arddangosfa eleni.

Dywedodd Clerc y Dref na ddylai'r pum golau croesi stryd yng nghanol y dref yn rhan o gynllun eleni gan na ellid bod yn sicr y byddai'r ffitiadau wal yn eu dal i fyny mewn gwyntoedd cryfion. Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau bod un wedi dod i lawr yn stormydd y gaeaf diwethaf ac wedi achosi niwed arwyddocaol i adeilad Bright Spot. Nid oedd yn teimlo'n gyfforddus gyda'r hyn a allai ddigwydd eto pe byddai gwyntoedd cryfion eleni.

Dywedodd Clerc y Dref hefyd y byddai dau olau solar ar adeilad Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington eleni i weld pa mor effeithiol ac ymarferol ydynt.

Awqgrynmodd Clerc y dref bod y Cyngor Tref yn derbyn cyflwyniadau gan ddarparwyr goleuadau gyda golwg ar gael cynllun prydlesu newydd tair blynedd.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn mynd ati i drefnu trwsio'r wyth golau a dod ag adroddiad manwl yn ôl i gyfarfod mis Hydref o'r Cyngor i ystyried y goleuadau traws stryd ac ati.*

Mewn perthynas â chofnod rhif 39 (Coerlcerth a Thân Cymunedol y Rhyl) ac mewn ymateb i ymholiad gan aelod, dywedodd Clerc y Dref iddo gysylltu gyda Gwasanaeth Tân y Rhyl i ofyn am y posibilrwydd o gael tân gwyllt tawel ar gyfer digwyddiad y flwyddyn nesaf ac roeddynt yn frwdfrydig iawn. Roedd yn aros iddyn nhw ddod yn ôl ato.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 20fed Gorffennaf 2022 | - | Rhifau Cofnod | 10-16 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. J. Rutherford a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 7fed Medi 2022 | - | Rhifau Cofnod | 17-20 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. J. Rutherford a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. M. Mullen-James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 46. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddigwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Diprwy Faer ar ran y Cyngor dros y mis diwethaf (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

## 47. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Y Cyngh D. L. King | Treuliau Maer Awst 2022 | 1492 | 170.59 |
| Y Cyngh D. L. King | Lwfans Maer 22/23 – taliad 2 o 3 | 1493 | 433.33 |
| Y Cyngh D. L. King | Lwfans Uwch Aelod 22/23 – taliad 2 o 3 | 1494 | 166.67 |
| Y Cyngh J. L. McAlpine | Lwfans Dirprwy Faer 22/23 – taliad 2 o 3 | 1495 | 133.34 |
| Y Cyngh J. L. McAlpine | Lwfans Uwch Aelod 22/23 – taliad 2 o 3 | 1496 | 166.67 |
| Lleng Brydeinig Frenhinol | Torch x 3 | 1497 | 150.00 |
| Rhyl BID | Cyfraniad BID– 1/4/22 - 1/3/23 | 1498 | 251.64 |
| Rhyl BID | Cyfraniad BID– 1/3/22 - 1/4/22 | 1499 | 23.36 |
| Eglwys Gatholig y Rhyl | Lluniaeth Sul Dinesig | 1500 | 400.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£1,895.60** |

**Taliadau argyfwng:** Ni wnaed taliadau argyfwng.

**Taliadau cerdyn:** Gwnaed un taliad cerdyn (Taleb Rhif 1497) am £150.00.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 48. CYFRIFON BLYNYDDOL I 31AIN AWST 2022 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2022/23

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos perfformiad yn erbyn y gyllideb, a oedd ar y llwybr cywir, ond dywedodd y gallai llawer newid mewn cyfnod o chwe mis.

Mewn perthynas â'r gwariant a ragwelir o £25,000 yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd, ychwanegodd Clerc y Dref bod gan y Cyngor Tref gronfeydd penodol ar gyfer hyn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**49. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL: GWYRDDIO TREFOL Y RHYL**

Adroddodd y Cadeirydd bod cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y corff uchod, Mrs E. M. Chard wedi ymddiswyddo a gofynnodd am enwebiadau ar gyfer cyrychiolydd newydd.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd K. R. Jones.*

**50. CAIS AM GYMORTH Y CYNGOR TREF – CYFEILLION NEUADD CINMEL**

Adroddodd Clerc y Xref iddo dderbyn yr uchod gan Gadeirydd Cyfeillion Neuadd Cinmel (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref yn eu hymdrechion i adfer adeilad Neuadd Cinmel.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clserc y Dref yn anfon llythyr o gefnogaeth.*

**51. EITEM GAN AELOD: CYMDEITHAS GADWRAETH FOROL**

Gopfynnodd y Cynghorydd K. R. Jones am gefnogaeth yr aelodau i anfon llythyr i'r sefydliad uchod mewn perthynas â chais am gyllid yn unol â'i ebost at Glerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn anfon llythyr o gefnogaeth.*

**52. EITEM YCHWANEGOL: CANSLO CYFARFOD PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL MIS HYDREF**

Dywedodd Clerc y Dref bod ganddo dair eitem ychwanegol i'w cyflwyno i'r aelodau heno a, gyda'u caniatâd nhw, os byddant yn cytuno eu hystyried, ei fod yn awgrymu canslo cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher 5ed Hydref.

***PENDERFYNWYD*** *bod y dair eitem yn cael eu hystyried a bod cyfarfod Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol mis Hydref yn cael ei ganslo.*

**53. EITEM YCHWANEGOL: PUM DWIRNOD PARCIO AM DDIM**

Awgrymodd Clerc y Cref bod y pum diwrnod parcio am ddim yn digwydd ar ddydd Mawrth 20fed hyd at ddydd Sadwrn 24ain Rhagfyr eleni.

Gofynnodd aelod a fyddai Cyngor Sir Ddinbych efallai'n ystyried ehangu ei fenter barcio 'Am ddim ar ôl 3pm' i barcio am ddim drwy'r dydd ar ddydd Sadwrn yn rhedeg

i fyny at y Nadolig, i annog siopwyr i'r Rhyl a chefnogi busnesau lleol mewn cyfnod sy'n mynd i fod yn anodd iawn i fusnesau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r pum diwrnod a awgrymwyd a bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn iddyn nhw ystyried cynnig parcio am ddim drwy'r dydd ar y Sadyrnau yn rhedeg i fyny i'r Nadolig eleni.*

## 54. EITEM YCHWANEGOL: CRIBYN Y TRAETH

Adroddodd Clerc y Drfef ei fod, yn unol â chyfarwyddiadau, wedi gofyn i Gyngor Sir Ddinbych os gellid trefnu ardangosfga i gynghorwyr y Cyngor Tref, ac roeddent wedi dweud y byddai'r cribyn ond yn weithredol hyd at ddiwedd mis Medi, gan nad oedd amodau'r gaeaf yn addas.

Dywedodd Cyngor Sir Ddinbych y byddai arddangosfa yn well yn y gwanwyn 2023, ond roeddent yn barod i drefnu ymweliad arbennig ym mis Hydref os oedd y cynghorwyr eisiau hynny.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr arddangosfa yn y Gwanwyn.*

## 55. EITEM YCHWANEGOL: CAIS GAN GOLEG Y RHYL I ROI CYFLWYNIAD I'R CYNGOR TREF

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn ebost gan y coleg yn gofyn os gallai pennaeth y coleg Mr Lawrence Wood roi adroddiad cynnydd i'r Cyngor Tref ar y gwaith a oedd yn mynd rhagddo yn y coleg.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradywo'r cais.*

## 56. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: ………………….........

Dyddiad: ……………….……….